



Ein Rhanbarth ar Waith  
Education through Regional Working

# Y Strategaeth ar gyfer Lleihau Effaith Tlodi ar Ganlyniadau Addysgol

2015 – 2018

Cynghrair o 6 awdurdod lleol yw ERW a reolir gan gyd-bwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol.  
Y nod yw gweithredu strategaeth a chynllun busnes rhanbarthol cytunedig a chefnogi gwelliant ysgolion.

ERW is an alliance of 6 local authorities governed by a legally constituted joint committee.  
Its aim is to implement the agreed regional strategy and business plan to support school improvement.

Mae'r strategaeth hon wedi'i pharatoi gan ALL cyfansoddol ERW, mewn partneriaeth â'n hysgolion a'n partneriaid allweddol. Ei diben yw dangos ein gweledigaeth ar gyfer lleihau effaith tlodi ar ganlyniadau addysgol fel yr amlinellir yng Nghynllun Busnes 2015-18 a Strategaeth ERW.

Gweledigaeth ERW yw rhwydwaith o ysgolion sy'n perfformio i safon uchel yn gyson ar draws y rhanbarth, gyda phob ysgol yn cynnig safonau addysgu uchel dan arweinyddiaeth dda sy'n sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial llawn.

Rydym yn cydnabod y cyd-destun cenedlaethol. Rhyddid rhag Tlodi yw nod craidd 7 Llywodraeth Cymru ac mae cyfrifoldebau cyrff cyhoeddus yn cael eu nodi yn Mynd i'r Afael â Thlodi Plant: Canllawiau a Rheoliadau ar gyfer Awdurdodau Cymreig.

Mae Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn nodi'r targedau a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar bobl o bob oedran yng Nghymru, a lliniaru'r effaith hon.

Mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru (Chwefror 2011) yn defnyddio'r ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r trothwy Cynwysedig Lefel 2 i fesur cynnydd yn erbyn amcanion y strategaeth.

Mae dogfen Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a Grant Amddifadedd Disgyblion 2013-15 yn disgrifio'r achos dros wella canlyniadau addysgol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae Trechu Tlodi yn elfen ganolog o Bolisiau a Strategaethau Llywodraeth Cymru.

### ESTYN Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru 2012-2013

Seithfed nod craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer pob plentyn a phobl ifanc yw "osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi". Serch hynny, mae'n wir fod gormod o ddisgyblion, ar hyn o bryd, yn parhau i fod o dan anfantais oherwydd tlodi. Nid yw'r ysgolion hynny sydd â chyfran uchel o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'r rhai gyda disgyblion o gefndiroedd mwy breintiedig. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi rhoi blaenoriaeth benodol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad a dylai dyrannu grantiau amddifadedd disgyblion i ysgolion helpu i gefnogi mentrau newydd.

Mae'n rhaid i'r gwaith o liniaru effaith tlodi fynd y tu hwnt i wneud penderfyniadau ynglŷn â sut y bydd ysgol yn defnyddio'r grant ei hun. Er mwyn gwneud gwahaniaeth, mae'n rhaid i'r gwaith o drechu effaith tlodi fod yn elfen ganolog o waith cynllunio'r ysgol gyfan. Nid yw arweinwyr ysgolion yn rhoi digon o flaenoriaeth i hyn ar hyn o bryd. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn darparu hyfforddiant helaeth i staff ar addysgu llythrennedd i bob disgybl, mae llai ohonynt yn blaenoriaethu rhifedd ac ychydig iawn ohonynt sy'n cynllunio hyfforddiant ar

sut i liniaru effeithiau tlodi ar ddysgwyr unigol y mae eu hamddifadedd yn creu rhwystrau at ddysgu.

Mae sawl rheswm pam fod dysgwyr difreintiedig yn tangyflawni, ac mae angen i ysgolion fynd i'r afael â'r rhain gyda'i gilydd, os ydynt am lwyddo i helpu'r disgyblion hyn lwyddo yn yr ysgol. Mae mabwysiadu dull gweithredu 'ysgol gyfan' yn golygu bod angen i bob aelod o staff ddeall y rôl sydd ganddynt yn y cynllun cyffredinol. Dylai bod gan ysgolion gyfres o fentrau penodol i gefnogi dysgwyr difreintiedig, yn ogystal â pholisïau ac arferion cyffredinol sy'n berthnasol i bob disgybl, yn nhermau:

- tracio cynnydd disgybl;
- hyfforddi a mentora unigolion;
- gwella llythrennedd a sgiliau meddwl yn feirniadol;
- datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol;
- cefnogi lles, yn cynnwys presenoldeb ac ymddygiad;
- cynnig cwricwlwm perthnasol ac ysgogol;
- gwrando ar ddysgwyr;
- ymgysylltu â'r rhieni.

Dylai elfennau niferus dull gweithredu tîm at anfantais fynd y tu hwnt i'r ysgol, a chynnwys ei awdurdod lleol a'r consortia rhanbarthol, yn ogystal â sefydliadau allanol perthnasol, gwasanaethau ac asiantaethau arbenigol, yn cynnwys ieuencid, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae sefydlu cyd-ddealltwriaeth ac alinio mentrau er mwyn sicrhau eu bod yn symud i'r un cyfeiriad yn elfennau hollbwysig o'r broses hon. Mae angen sgiliau arweinyddiaeth lefel uchel ar gyfer sefydlu'r rhwydweithiau hyn o asiantaethau, a fydd yn eu galluogi i gydweithio, a chael cydweithrediad i gyflawni nodau cyffredin. Ar hyn o bryd, nid oes digon o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth ar gael i benaethiaid ac uwch arweinwyr eraill mewn ysgolion, i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau arweinyddiaeth hyn. Nid oes gan arweinwyr siop un stop o arbenigedd arweinyddiaeth y gallant ei ddefnyddio i gael canllaw a chynghor anffurfiol, canfod cyrsiau hyfforddiant a pharu partneriaid ar gyfer hyfforddiant a mentora.

## **Blaenoriaethau Cynllun Busnes ERW**

Cenhadaeth ERW yw sicrhau perfformiad effeithiol ym mhob ysgol ar draws y rhanbarth drwy:

- Herio perfformiad ysgolion yn gadarn a chyson, a'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni gan bob un o'u dysgwyr
- Datblygu system wahaniaethol o gymorth proffesiynol i ysgolion, yn ôl yr angen a nodir drwy fframwaith asesu a chategoreiddio y cytunwyd arno'n genedlaethol, sy'n cael ei gyflwyno'n gyson ar hyd a lled y rhanbarth
- Cefnogi'r broses o ddsbarthu strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol i ddatblygu sgiliau llythrennedd a sgiliau dysgwyr a gwella canlyniadau i ddysgwyr difreintiedig
- Hwyluso a datblygu cymorth effeithiol rhwng ysgolion er mwyn gwella perfformiad a chanlyniadau drwy ddatblygu ymarferwyr arweiniol profiadol a llwyddiannus

- Rheoli a defnyddio Ymgynghorwyr Her sydd wedi'u hyfforddi'n dda ar draws y rhanbarth ac yn y canolfannau, er mwyn herio perfformiad a chyfeirio at gymorth perthnasol priodol
- Ysgogi ymyriadau ffurfiol yn yr ysgolion hynny nad ydynt yn perfformio i'r safon ofynnol
- Meithrin capasiti a gwytnwch mewn ysgolion, er mwyn i ni alluogi system hunan-wella yn y rhanbarth

Mae gwella cyrhaeddiad i bawb yn egwyddor graidd ym mhob agwedd o'n gwaith ac mae hyn wedi'i ymgorffori ym mlaenoriaethau ein Cynllun Busnes.

Mae ERW yn wasanaeth effeithiolrwydd ysgolion unigol, integredig, rhanbarthol a phroffesiynol, sy'n ysgogi gwelliannau mewn ysgolion a chyflawniadau dysgwyr ar draws ardal y chwe awdurdod lleol yn rhanbarth De Orllewin a Chanolbarth Cymru, o fewn tair canolfan:

- Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro (Canolfan y Gorllewin)
- Ceredigion a Phowys (Canolfan y Gogledd)
- Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe (Canolfan y Dwyrain)

Mae'r model hwn o strategaeth ranbarthol sy'n cael ei gyflenwi drwy'r tair canolfan wedi'i ddatblygu er mwyn sicrhau proses gyflenwi effeithiol ar draws ardal ddaearyddol fawr, yr ystod amrywiol o ysgolion sy'n adlewyrchu'r cyd-destun rhanbarthol a natur ddwyieithog y rhanbarth.

Mae ERW yn pwysleisio bod tlodi yn un o'r prif faterion sy'n dylanwadu ar y graddau y gall plant yng Nghymru gyflawni eu potensial.

Tlodi yw dim digon o arian, dillad, chwarae, bwyd, cymorth, gwasanaethau neu bethau eraill sydd eu hangen ar gyfer bywyd iach. Mae bron i draean o'r plant sy'n byw yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Gall tyfu i fyny mewn tlodi wneud bywyd yn anodd iawn. Mae'n bosibl y bydd plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny mewn tlodi yn profi mwy o broblemau iechyd, nid ydynt yn gwneud cystal yn yr ysgol ac mae ganddynt lai o sgiliau. Efallai eu bod yn disgwyl llai o fywyd. Efallai na fyddant yn llwyddo i ddod o hyd i waith, neu byddant yn cael swydd sy'n talu llai iddynt sy'n golygu y byddant yn ddibynnol ar fudd-daliadau; ac sy'n cael llai o gyfleoedd ac sydd o dan anfantais ar hyd eu bywyd. Tlodi a thlodi plant, sy'n effeithio ar un o bob tro o'r holl blant sy'n byw yng Nghymru, yw un o brif achosion cyrhaeddiad isel ymhlith myfyrwyr difreintiedig. Mae tlodi wedi'i grynhoi mewn ardaloedd ac ysgolion penodol yng Nghymru, gyda'r rhan fwyaf ohonynt wedi profi cwymp eu heconomïau lleol a ffynonellau cyflogaeth yn ystod y 1980au, ond nid oes cysylltiad cyson rhwng crynadau uchel o dlodi a pherfformiad ysgolion. Un rheswm posibl sy'n debygol o achosi i berfformiad isel myfyrwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim waethygu mewn ysgolion uwchradd yw ffactorau personol a chymdeithasol. Mewn cymunedau difreintiedig, nid yw rhieni, grwpiau cyfoedion a chymunedau yn cael y dylanwad cadarnhaol y gallant ei gael ar gyrhaeddiad myfyrwyr. Gellir nodi'r rhesymau pam nad yw ysgolion yn gallu gwella cyrhaeddiad myfyrwyr difreintiedig.

Mae'r bwlch yng nghyflawniadau plant difreintiedig, o gymharu â phlant breintiedig, yn bresennol pan maent yn 9 mis oed, yn arwyddocaol erbyn y byddant yn 3 oed, yn cynyddu yn y blynyddoedd cynradd ac yn cyflymu'n benodol mewn addysg uwchradd. Mae'r bwlch ar ei fwyaf pan fydd myfyrwyr yn cwblhau eu haddysg 'gorfodol' yn bymtheg oed: mae myfyriwr nad yw'n byw mewn tlodi ddwy waith a hanner yn fwy tebygol o gyflawni

canlyniad uchel o gymharu â myfyriwr sy'n byw mewn tlodi. Mae cyfle isel iawn y bydd myfyrwyr difreintiedig, nad ydynt wedi cyflawni at lefel uchel yn 15 oed, yn mynd ymlaen i addysg bellach ac uwch ac yn cyflawni unrhyw gymwysterau pellach erbyn y byddant yn 19 oed.

Er bod myfyrwyr sydd yn byw ac nad ydynt yn byw mewn tlodi wedi gwella eu perfformiad addysgol dros amser, nid yw'r bwlbwlch tlodi wedi lleihau. Mae crynoadau uchel o fyfyrwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn ysgol yn cael effaith andwyol ar berfformiad myfyrwyr nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim: mae'r dystiolaeth yn llai clir o ran effaith gadarnhaol bosibl.

Er hynny, rydym yn cydnabod bod galluogi ein dysgwyr mwyaf difreintiedig i gyflawni'n dda yn eu helpu hwy, ac yn ein helpu ni i gyflenwi'r gwelliannau gofynnol yn y system.

Felly, rydym yn gweithio'n systemataidd i ddatblygu capasiti ysgolion i wella eu hunain. Rydym yn cynorthwyo ysgolion gyda'u defnydd o ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwella ysgolion e.e. Pecyn Offer Sutton a gafodd ei arddangos yn y gynhadledd ranbarthol;

Defnyddio'r offer lles, er enghraifft PASS a'r SUPASurvey fel dull o fesur lles dysgwyr;

Nodi'r ysgolion hynny sydd wedi llwyddo i gau bylchau cyrhaeddiad yn effeithiol ac sydd wedi rhannu eu harfer;

Cynorthwyo ysgolion ac arweinwyr systemau drwy ddarparu pecyn offer o offer arfer a gwerthuso arfer effeithiol; ac, yn benodol

Parhau i leihau'r bwlbwlch mewn cyrhaeddiad ymhlith dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a pharhau i sicrhau bod perfformiad ar draws ERW yn rhagori ar gyfartaledd Cymru.

### **Camau gweithredu / y sefyllfa bresennol?**

Yn gyffredinol, nid yw cynnwys ddysgwyr e-FSM yn cymharu'n dda â'u cyfoedion; Er bod y bwlbwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr e-FSM a'u cyfoedion mewn ysgolion cynradd wedi lleihau rhywfaint, mae wedi ehangu mewn ysgolion uwchradd ers 2008; ac mae'r twf hwn yn y bwlbwlch cyrhaeddiad yn pwysleisio'r angen i gymryd camau wedi'u targedu.

Mae rhai tueddiadau pwysig yn sail i'r mesurau cenedlaethol:

Mewn ysgolion cynradd, mae Cymraeg / Saesneg yn wannach na mathemateg ac yn y pynciau Cymraeg/Saesneg, mae'r ysgrifennu yn wannach na darllen a llefaredd, yn arbennig ymhlith bechgyn.

Mewn ysgolion uwchradd, mae mathemateg yn wannach na Chymraeg/Saesneg.

Mae 'bylchau' mewn perfformiad rhwng grwpiau dysgwyr, er enghraifft plant sy'n derbyn gofal, o gymharu â phob dysgwr: mae 10% yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn yr ysgol uwchradd, o gymharu â 50% ar gyfer pob dysgwr.

Er bod Cyflawniad Academaidd a'r Hawl i Brydau Ysgol am Ddim Cymru 2012 yn nodi:

Bod perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is na'u cyfoedion ym mhob cyfnod allweddol ac ym mhob mesur perfformiad;

Mae'r bwlch mewn perfformiad wedi lleihau dros y chwe blynedd diwethaf yn CA2 a 3. Fodd bynnag, yn CA4 mae'r bwlch ar drothwy cynwysedig Lefel 2 wedi cynyddu bob blwyddyn hyd at 2010, cyn lleihau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf; a bod

Y perfformiad yn cynyddu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i wella cyrhaeddiad grwpiau penodol o ddysgwyr. I'r rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, byddwn yn helpu ysgolion i wneud y defnydd gorau a defnydd wedi'i dargedu o'r adnoddau ychwanegol sydd ar gael ar gyfer y disgyblion hyn. Hefyd, byddwn yn annog ysgolion lle mae ymyriadau i leihau effaith tlodi ar ganlyniadau addysgol yn gweithio'n dda, ac yn manteisio ar eu profiadau er mwyn helpu eraill. Rydym hefyd yn anelu at godi safonau a mynd i'r afael â'r risg o dangyflawni i ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, yn arbennig y rhai sy'n dysgu Saesneg (a / neu Gymraeg) fel iaith ychwanegol. Mae cyngor arbenigol, cymorth, arweiniad, datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant yn elfen hollbwysig o'r gwaith hwn er mwyn gwneud yn siŵr bod disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn: cael eu cynnwys yn llwyr a'u bod yn hapus yn yr ysgol; eu bod yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd; mae eu hanghenion iaith a dysgu yn cael eu hasesu a'u cyflawni'n briodol; eu bod yn cyflawni yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar lefelau yn unol â phwynt cychwyn/rhuglder yn Saesneg; a chyflawni eu potensial academaidd unigol. Mae hyn yn golygu bod angen i ni wneud yn siŵr bod pob ysgol yn adnabod eu disgyblion yn dda, ac yn rhoi'r gefnogaeth briodol iddynt.

Yn rhanbarthol, mae angen rhoi sylw i addysgu a dysgu bechgyn. Ar hyn o bryd mae eu perfformiad yn wannach o gymharu â rhanbarthau eraill. Mae angen dadansoddiad clir, yn ogystal â ffocws ar strategaethau llwyddiannus. Rydym eisoes wedi sefydlu blaenoriaethau er mwyn gwneud yn siŵr bod ein datblygiadau o ran adnoddau yn rhoi ystyriaeth lawn i'w hanghenion, a'n bod yn gallu datblygu arfer gorau ysgolion.

Bydd codi'r safonau addysgu i bawb yn flaenoriaeth allweddol yn y rhanbarth. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob athro yn athro da dros amser, ac y bydd disgyblion yn derbyn darpariaeth addysgu dda neu well bob dydd yn yr ystafell ddosbarth.

Felly, mae angen i ni gydnabod a gwobrwyo'r rhagoriaeth gynyddol gan rai athrawon yn gyson, gyda dull gweithredu cyffredin, yn ogystal â mynd i'r afael ag achosion o danberfformio, ar draws ein chwe awdurdod lleol. Mae cyfran yr addysgu digonol neu anfoddhaol yn cynyddu yn gyflymach na'r gyfran o addysgu rhagorol. Mae hyn yn golygu bod angen i ni fynd i'r afael â'r mater hwn yn awr. Mae Estyn hefyd yn datgan mai 'gwella addysgu' yw un o'r argymhellion mwyaf cyffredin mewn arolygiadau ysgolion. Yn ERW, mae gan bron i 10% o ysgolion yr argymhelliad hwn. Mae hon yn agwedd bwysig i ni ei hystyried, hyd yn oed mewn ysgolion da neu well, lle mae amrywiadau rhwng adrannau a rhwng ysgolion yn effeithio ar safon yr addysgu.

Bydd cefnogi a chyflenwi Bargen Newydd y Gweinidog i gefnogi athrawon ac arweinwyr ysgolion yn asio gyda'n gwaith ni i wella addysgu. Bydd ERW yn helpu athrawon i ymdrechu

at ragoriaeth ac yn helpu athrawon sydd â meysydd gwaith newydd a newidiadau yn y cwricwlwm.

Rydym yn ymroddedig i arwain hinsawdd sy'n newid ym myd addysg, yn sgil adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm ac wrth i bwysigrwydd rôl technoleg mewn addysgeg gynyddu. Mae gwella ein cymhwysedd digidol ar bob maes cyflenwi yn hollbwysig er mwyn gallu gweithio'n fwy effeithlon ac effeithiol. Byddwn yn gweithio i arddangos defnydd gwell o sgiliau yn unol â gofynion y cyrsiau TGAU a PISA newydd. Byddwn yn ymgysylltu gydag ysgolion drwy raglenni sy'n cael eu hariannu gan EIG er mwyn blaenoriaethu a chanolbwyntio ein gwaith yn y meysydd cywir.

Bydd meithrin ein capasiti i arwain yr adrannau a'r meysydd pwnc mwyaf effeithiol yn golygu cymorth ychwanegol pan fyddwn wedi nodi meysydd i'w datblygu. Bydd y newidiadau ym maes Gwyddoniaeth, er enghraifft, yn arwain at raglen ailhyfforddi mewn rhai ysgolion, a fydd yn sicrhau bod pob aelod o staff yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i gyflenwi'r cwricwlwm yn y dyfodol.

Bydd cefnogi datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg gyda mynediad priodol at ddadansoddiad pwrpasol o ddata ar gyfer ymweliadau craidd ac adnoddau o safon uchel ym mhob cyfnod allweddol yn flaenoriaeth ar ddechrau'r flwyddyn. Bydd hyn yn galluogi ein hathrawon i gael mynediad gwell a mynediad cyson at adnoddau sydd eu hangen i gynorthwyo dysgwyr.

Mae ein rôl yn y gwaith o ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar draws pob cyfnod allweddol yn cael ei chroesawu a bydd yn cael ei chynllunio yn unol â'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo ar lefel ranbarthol. Rhoddir blaenoriaeth i sicrhau sylfaen dda i ddysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen i ddatblygu'r sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Tuag at ddiwedd 2014, bu i ERW ddiweddarau ei adroddiad hunanwerthuso wrth baratoi ar gyfer nifer o adolygiadau mewnol ac allanol. Mae'r cynllun hwn yn ystyried yr argymhellion o'r prif adolygiadau a'r adborth defnyddiol gan gyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio.

O fis Medi 2015, byddwn yn cyflwyno ein strategaeth ranbarthol yn ffurfiol ar gyfer system o hunan-wella, gan adeiladu ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i atgyfnerthu cymorth o fewn ysgolion a gwaith rhwng ysgolion. Bydd hyn yn dynodi cam allweddol ymlaen yng ngwaith y rhanbarth tuag at system o hunan-wella.

Cyflwynodd y Gweinidog hwn ei weledigaeth glir ar gyfer Cymru yn Cymwys am Oes. Bydd ERW yn cefnogi'r broses o gyflwyno polisiau allweddol y llywodraeth. Mae themâu'r cynllun wedi'u halinio'n agos i'n blaenoriaethau ni. Rydym yn awyddus i gynorthwyo ein gweithlu rhanbarthol, i adennill hyder mewn addysgu fel gyrfa drwy ddarparu cymorth a her effeithiol; rydym yn awyddus i ddatblygu'r capasiti arweinyddiaeth o'r tu mewn allan, a chydweithio i fanteisio ar gryfderau'r rhanbarth i rannu hyn gyda'n gilydd; rydym yn ceisio sicrhau cwricwlwm cyfoethog sy'n creu canlyniadau gwerthfawr i bawb. Bydd y darlun hwn yn newid wrth i ni aros am ymateb y Gweinidog i'r adolygiadau; rydym yn ymroddedig i newid er mwyn gwella.

Mae gwaith cynllunio a gwella cyson parhaus dros dair blynedd yn nod yr ydym yn ceisio ei gyflawni yn ail ran y cynllun. Mae'r adran hon yn rhoi amlinelliad o'r ffyrdd mewnol a sefydliadol y mae'n rhaid i ERW atgyfnerthu atebolrwydd, cyfathrebu, systemau a phrosesau er mwyn galluogi effeithlonrwydd uwch a chanlyniadau gwell i ddysgwyr. Mae nodi sut yr

ydym yn cyflawni gwerth am arian wrth wella canlyniadau dysgwyr yn hollbwysig i bartneriaeth llwyddiannus.

Bydd y Cynllun Busnes yn amlinellu ac yn gweithredu i liniaru pwysau, blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, risgiau a meysydd i'w datblygu. Bydd cryfderau allweddol ac arferion effeithiol yn cael eu datblygu ymhellach.

## Y Camau Nesaf

Mae gan y strategaeth hon dair/neu fwy o nodau cyffredinol.

### 1. Datblygu sylfaen effeithiol ac effeithlon o wybodaeth am strategaethau llwyddiannus...

- Disgrifio'r hyn yr ydym wedi'i wella a'r hyn y gallwn ei wella
- A oes angen i ni ddechrau gwneud rhywbeth newydd?
- Gwneud defnydd cywir o adnoddau

### 2. Esbonio rolau

Mae gan hyn oblygiadau i bob rhan o'r system ysgol, y gwasanaethau cymorth ehangach ac ALL a'r gymuned rieni

Ceir crynodeb o'r prif rolau isod.

#### Ysgolion a'u cyrff llywodraethu

Mae gan ysgolion flynyddoedd lawer o brofiad o weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth gydag ysgolion eraill at ddibenion amrywiol. Bydd gwelliannau sy'n cael eu harwain gan y sector, fel y prif gyfrwng ar gyfer cyflawni gwelliannau mewn ysgolion, yn gofyn am lefel uwch o barodrwydd i gydweithio.

Bydd ysgolion yn ymgysylltu â'r system hunan-wella mewn gwahanol ffyrdd ond cynsail y broses hon fydd bod gan bawb rhywbeth i'w gynnig. Bydd ysgolion yn:

- rhannu arbenigedd
- cydweithio pan fydd yn gwneud synnwyr i wneud hynny
- sicrhau bod cymorth rhwng ysgolion yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau o ran gwelliannau i'r grŵp penodol hwn o ddysgwyr, fel y nodir yn yr ACV.



## Rôl ERW

Bydd yr awdurdod lleol yn ceisio gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion er mwyn helpu i greu'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc yn sgil y cymorth a roddir rhwng ysgolion. Bydd hyn yn cynnwys:

- hwyluso – cefnogi'r broses o rannu llwyddiant
- broceru – cyfateb angen gyda darpariaeth
- cyfeirio – darparu cyfeiriad clir i gymorth priodol
- hyfforddiant a datblygiad
- dadansoddiad

Ymhlith y gweithgareddau a'r gweithredoedd sydd eisoes mewn grym mae:

- Yn unol â'r gofynion newydd, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar arfer da, rydym wedi helpu ysgolion i wella eu cynlluniau eleni i baratoi
- Mae'r ysgolion hynny sydd â gwaith cynllunio gyda llai o ffocws a llai o gryfder wedi'u targedu i dderbyn cymorth ychwanegol yn unol â'r Ysgol o Gefnogaeth a Her neu drwy raglen hyfforddiant leol
- Darparu set ddata i ysgolion sy'n dangos y dystiolaeth sydd ei hangen i dargedu disgyblion.
- Mae Ysgol Cymorth ac Ymyrraeth\* ERW yn nodi proses flynyddol glir drwy'r ACV lle byddwn yn gweithio gydag ysgolion i herio eu targedau yn gyson.
- Hefyd, mae gwaith y tîm Cymorth Llywodraethwyr i hyfforddi a chefnogi llywodraethwyr i nodi'r flaenoriaeth sydd ei hangen ar gyfer dysgwyr efsm wedi dwysau yn dilyn y model categoriedd newydd.
- Mae'r gwasanaethau Cymorth Llywodraethwyr yn newid yn rhanbarthol a byddant yn rhan o'r cymorth wedi'i froceru a roddir i ysgolion bob blwyddyn. Dylai llywodraethwyr gymryd cyfrifoldeb arweiniol i herio'r broses.
- Mae gweithgor Grant Amddifadedd Disgyblion / Plant sy'n Derbynn Gofal ERW wedi cydweithio i gytuno ar gynllun i gyflenwi gwasanaeth o safon uchel i ysgolion a disgyblion drwy gydweithrediad effeithiol a datblygu arfer gorau. Mae hyn yn golygu y bydd dull gweithredu strategol rhanbarthol yn tywys ein dull cyflenwi. Mewn egwyddor, byddwn yn datblygu gwytnwch ysgolion i ymateb yn rhagweithiol i angen ac asio hyn gyda chapasiti rhanbarthol i sicrhau ansawdd y trefniadau.
- Mae proses effeithiol o dracio disgyblion yn un o brif gryfderau ysgolion ERW, ac mae hyn yn cefnogi her effeithiol ar lefel ranbarthol, yn ogystal ag ymyriadau effeithiol penodol i ddisgyblion. Mae hyn yn ffactor arwyddocaol yn y gwaith o alluogi ymyriadau penodol pryd bynnag y bydd eu hangen.

## Partneriaid

ALI - GC

Elusennau

Felly, bydd angen i bartneriaid:

- diffinio eu rôl yn glir
- nodi'r gwerth y gallant ei gyfrannu er mwyn lleihau effaith tlodi
- bod yn barod i gydweithio gyda nifer o bartneriaid gwahanol
- deall a chanolbwyntio ar flaenoriaethau lleol.

### 3. Nodi beth yw anghenion a llwyddiant

O ystyried cryfderau ac anghenion unigryw ysgolion ERW, mae'n bwysig sefydlu meini prawf llwyddiant sy'n cyfateb yn union ag amgylchiadau lleol. Yn gyffredinol, bydd y strategaethau yn wahanol oherwydd bod anghenion ac effeithiau tlodi mor amrywiol.

#### Gwerthusiad ac effaith

Ni ellir barnu bod gwelliannau wedi'u harwain gan y sector yn llwyddiant oni fyddant yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau plant a phobl ifanc. Dylai cynllunio ar gyfer effeithiau fod yn rhan hollbwysig o bob gwaith cymorth rhwng ysgolion.

Y peth pwysig yw ei fod yn cael ei wneud, bod dysgu yn cael ei fwydo yn ôl i'r broses gynllunio a bod llwyddiant yn cael ei ddathlu.

#### Beth yw llwyddiant?

2015 – 2016

- A yw'r ysgolion yn gwneud defnydd llawn o'r Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn targedu ymyrraeth at y disgyblion cywir
- A oes gennym ysgolion braenaru llwyddiannus sy'n gallu rhannu strategaethau effeithiol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf?
- A oes gennym dystiolaeth o ganlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim oherwydd cymorth effeithiol rhwng ysgolion?
- A yw disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn dangos mwy o gynnydd er mwyn lleihau'r bwlch ar bob lefel i NFSM?
- A oes gennym Broffil Asesu Disgyblion Agored i Niwed cyffredin ar draws y rhanbarth?
- A yw arfer da o ran trosglwyddo rhwng yr holl gyfnodau wedi'i nodi a'i gyfeirio? Mae dysgwyr yn gwneud dewisiadau cytbwys sy'n codi uchelgais mewn teulu.
- A oes gennym becyn offer data cyffredin sy'n nodi ysgolion sy'n llwyddo i gau'r bwlch?
- Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o 15% erbyn diwedd 2016.
- Cynyddu cyrhaeddiad disgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i lefel 2 yn cynnwys S/C a Mathemateg i 30% erbyn 2016.

- Lleihau nifer y bobl ifanc NEET ar draws rhanbarth ERW ar ddiwedd Blwyddyn 11 i 3.5% o'r cohort.

## 2016 – 2017

- A yw cyfran y dysgwyr sy'n ennill lef2+ yn cynyddu ar y cyflymder a gynlluniwyd?
- A yw pob ysgol werdd a melyn yn ymgysylltu mewn trefniadau cefnogol lle gallant feithrin eu capasiti eu hunain er mwyn darparu cymorth effeithiol i'r rhai mewn tlodi a chefnogi eraill yr un pryd?
- A oes gennym ysgolion hyderus sy'n cymryd risgiau er mwyn anelu at ragoriaeth?
- A ydym yn atgyfnerthu'r ffocws ar ganlyniadau da i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim?
- Mae ysgolion yn cymryd rôl ganolog yn y gwaith o gydlynu a chynllunio ymyriadau cynnar yn y gymuned, gan weithio gyda phob asiantaeth.
- A yw pob ysgol yn gwerthuso ei hun; yn cynllunio a chyflenwi'r cwricwlwm priodol ar gyfer pob dysgwr?
- Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o 10% erbyn diwedd 2017.
- Cynyddu cyrhaeddiad disgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i lefel 2 yn cynnwys S/C a Mathemateg i 37% erbyn 2016.
- Lleihau nifer y bobl ifanc NEET ar draws rhanbarth ERW ar ddiwedd Blwyddyn 11 i 3.3% o'r cohort.

## 2017 – 2018

- A yw plant sy'n byw mewn tlodi yn cael mynediad at gymorth gwell gyda'u dysgu er mwyn cau'r bwlch?
- A yw'r safonau wedi cynyddu'n gyflymach nac yn y tair blynedd ddiwethaf ac yn gyflymach nac mewn rhanbarthau eraill?
- Mae dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn elwa ar addysgu a dysgu o'r safon uchaf.
- Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth weithredol ac effeithiol ac maent yn lleoli staff yn briodol ac effeithiol er mwyn trechu tlodi.
- Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o 8% erbyn diwedd 2017.
- Cynyddu cyrhaeddiad disgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i lefel 2 yn cynnwys S/C a Mathemateg i 40% erbyn 2016.
- Lleihau nifer y bobl ifanc NEET ar draws rhanbarth ERW ar ddiwedd Blwyddyn 11 i 3.1% o'r cohort.